# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 169(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran Ysbyty Athrofaol Cymru yn cyhoeddi rhybudd du ynghylch galw andwyol sylweddol a pharhaus ar wasanaethau?

Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Heledd Fychan (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chyhoeddiad HSBC y byddant yn dod a'u gwasanaeth cwsmeriaid dros y ffôn yn y Gymraeg i ben?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

(60 munud)

**NDM8396** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 'Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE', a osodwyd ar 12 Medi 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Hydref 2023. At hynny, cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU ar 31 Hydref 2023 (Saesneg yn unig).

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ansawdd dŵr

(60 munud)

**NDM8397** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod carthion a gaiff eu gollwng i ddyfroedd Cymru yn cyfrif am 25 y cant o'r holl ollyngiadau ledled Cymru a Lloegr;

b) mai yng Nghymru y mae chwech o'r 20 afon mwyaf llygredig yn y DU ledled Cymru a Lloegr; ac

c) mai gan bobl yng Nghymru y mae'r biliau dŵr ail uchaf allan o'r 11 cwmni dŵr yng Nghymru a Lloegr.

2. Yn gresynu nad yw Adroddiad Gorlifiadau Stormydd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd saith mis yn hwyr, yn cynnwys unrhyw argymhellion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gosod targedau ar Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n eu rhwymo mewn cyfraith i wella gorlifiadau;

b) cynyddu gorfodaeth a sicrhau bod dirwyon yn cael eu defnyddio i wella afonydd ac adfer cynefinoedd; ac

c) mynd i'r afael â phibellau carthion heb drwyddedau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon.

Gorlifiadau Stormydd Cymru: adroddiad (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r cynnydd arwyddocaol yn nifer yr afonydd sydd wedi sicrhau statws ecolegol da yng Nghymru ers 1999.

2. Yn nodi'r fframwaith cyfreithiol llym y mae cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr yn gweithio ynddo.

3. Yn gwrthwynebu polisi Llywodraeth y DU i godi'r gofynion o ran niwtraleiddio maethynnau a fyddai'n rhoi ein hafonydd bregus mewn mwy o risg.

4. Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi rhagor o wahanu dŵr wyneb er mwyn lleihau'r pwysau ar systemau dŵr gwastraff trwy brysuro'r defnydd o systemau rheoli llifogydd yn naturiol a systemau draenio cynaliadwy.

b) y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'i phwerau i sicrhau bod holl gwmnïau dŵr Cymru'n gostwng o flwyddyn i flwyddyn nifer yr achosion o lygru, gan weithio at y nod o sero, ond yn y tymor byr, eu bod yn rhoi stop ar bob achos o lygru difrifol.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu fel is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 3:

sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol;

rhoi mecanweithiau ar waith i atal taliadau bonws i staff gweithredol pe bai Dŵr Cymru yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd dŵr;

cyflymu'r gwaith o weithredu fframweithiau llywodraethu amgylcheddol cadarn yng Nghymru i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol yn cael sylw cyn gynted â phosibl.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Gwrthdaro yn Israel a Gaza

(60 munud)

**NDM8391** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn condemnio'r ymosodiadau brawychus a gyflawnwyd gan Hamas yn erbyn dinasyddion Israel ac yn galw am ryddhau gwystlon ar unwaith.

2. Yn nodi bod gan Israel ddyletswydd i sicrhau gwarchodaeth, diogelwch a lles ei dinasyddion a phoblogaeth feddianedig Palesteina.

3. Yn condemnio ymosodiadau diwahân Llywodraeth Israel ar Gaza, sydd wedi arwain at farwolaeth miloedd o bobl Palesteinaidd ddiniwed ac yn cytuno ag Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig na ellir cyfiawnhau cosbi pobl Palestina ar y cyd.

4. Yn galw ar y gymuned ryngwladol i:

a) uno i geisio sicrhau cadoediad ar unwaith i ddod â'r dioddefaint dynol i ben a chaniatáu i sefydliadau dyngarol gyrraedd y rhai mewn angen;

b) dwyn pwysau ar Lywodraeth Israel i roi terfyn ar y gwarchae ar Gaza sy'n mynd yn groes i gyfraith ryngwladol a hawliau dynol sylfaenol pobl Palesteina; ac

c) gwneud popeth o fewn ei allu i greu coridorau cymorth diogel ac ystyrlon i Lain Gaza a galluogi llwybr diogel allan o'r rhanbarth.

5. Yn sefyll mewn undod â'r cymunedau Israelaidd a Phalesteinaidd yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan y gwrthdaro.

6. Yn annog y Senedd i gefnogi datrysiad dwy wladwriaeth er mwyn mynd ar drywydd heddwch parhaol yn y rhanbarth.

**Cefnogwyr**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Cefin Campbell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Sian Gwenllian (Arfon)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn condemnio'r ymosodiadau, y trais a'r codi braw a gyflawnwyd yn ddiwahân gan Hamas yn erbyn Israel ar 7 Hydref.

2. Yn cydnabod hawl pob gwladwriaeth sofran, gan gynnwys Gwladwriaeth Israel, i amddiffyn eu hunain a'u dinasyddion.

3. Yn credu y dylid cynnal rhyfel yn unol â chyfraith ryngwladol, gan gynnwys osgoi clwyfedigion sifil.

4. Yn gresynu at golli bywydau sifiliaid a chlwyfedigion yn Israel, Gaza a'r Lan Orllewinol.

5. Yn estyn cydymdeimlad dwysaf pobl ar draws Cymru i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.

6. Yn cydnabod y risgiau pellach a berir gan yr argyfwng dyngarol sylweddol yn Gaza.

7. Galw am:

a) rhyddhau gwystlon;

b) atal gwrthdaro er mwyn caniatáu sefydlu coridorau dyngarol;

c) ailagor croesfan yr Rafah i alluogi sifiliaid, gwladolion tramor, gweithwyr cymorth a chyflenwadau dyngarol i groesi heb rwystr diangen;

d) i'r gymuned ryngwladol weithio gyda chynrychiolwyr Israel a Phalesteina i ddod â'r gwrthdaro i ben a thrafod setliad heddwch parhaol sy'n sicrhau diogelwch a ffyniant i bawb, yn seiliedig ar yr egwyddor datrysiad y ddwy wladwriaeth.

**Cyd-gyflwynwyr**

Alun Davies (Blaenau Gwent)

Hefin David (Caerffili)

**Cefnogwyr**

Gareth Davies (Dyffryn Clwyd)

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8392** Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

A all gofalwyr fforddio gofalu?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 01/11/2023 i'w hateb ar 08/11/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ60204 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU cyn datganiad yr hydref y Canghellor i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael cyfran deg o wariant cyhoeddus y DU?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

2 OQ60201 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2025?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ60195 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gynnydd yng ngwaith cyd-bwyllgorau corfforedig mewn llywodraeth leol?

**Hefin David** *Caerffili*

4 OQ60192 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolygon tymor canolig ar gyfer cyllidebau awdurdodau lleol?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

5 OQ60185 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer datganoli pellach o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OQ60180 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr yn y Cabinet ynghylch cymorth ariannol i lywodraeth leol?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

7 OQ60188 **(e)**

Pa ddyraniadau ychwanegol y bydd y Gweinidog yn eu gwneud i'r portffolio newid hinsawdd i gynorthwyo awdurdodau lleol i gefnogi cymunedau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

8

OQ60199 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i gadw rhaglenni fel Gwasanaeth fflecsi Bwcabus?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9

OQ60207 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r sector gofal plant?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

1

OQ60181 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch lleihau effeithiau amaethyddiaeth ar lygredd dŵr?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

2

OQ60196 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella lles anifeiliaid anwes?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3

OQ60193 **(e)**

Sut fydd cynllun Cynefin Cymru yn cefnogi ffermwyr yn Sir Drefaldwyn?

**Peter Fox** *Mynwy*

4

OQ60203 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith diwedd y cynllun Glastir ar ffermwyr sy'n derbyn arian ohono?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5

OQ60189 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch cefnogi cynghorau yng ngogledd Cymru i atal llifogydd?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

6 OQ60186 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd y toriadau arfaethedig i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ei chael ar y sector amaethyddol?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ60198 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddiogelu pysgodfeydd mewndirol ac arfordirol?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8 OQ60200 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith gwaharddiad Llywodraeth y DU o gŵn Bully XL Americanaidd ar y sector achub anifeiliaid yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ60208 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi Deddf Hela 2004 ar waith yng Nghymru?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ60183 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hybu masnach o ran bwyd a diod o Gymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ60205 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i hyrwyddo twf economaidd mewn ardaloedd gwledig?